

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL  
(MEMORANDWM RHIF 2)**

**Y BIL PLANT A GWAITH CYMDEITHASOL: GOFAL CYMDEITHASOL  
PLANT: AMDDIFFYN CHWYTHWYR CHWIBAN  
CYN CYFLOGAETH**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os bydd Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol (y "Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 19 Mai 2016. Gellir gweld y Bil yn:  
<http://services.parliament.uk/bills/2016-17/childrenandsocialwork.html>

**Amcanion polisi**

3. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw gwella'r drefn ar gyfer gwneud penderfyniadau a chymorth i blant sy'n derbyn gofal ac a oedd gynt yn derbyn gofal yng Nghymru a Lloegr; hwyluso gwell dysgu am ddulliau effeithiol o amddiffyn plant a darpariaeth ehangach gofal cymdeithasol i blant yn Lloegr a galluogi cyfundrefn reoleiddio newydd i gael ei sefydlu'n benodol ar gyfer y proffesiwn gwaith cymdeithasol yn Lloegr.

**Crynodeb o'r Bil**

4. Noddir y Bil gan yr Adran Addysg.
5. Gydag eithriadau, fel y nodir isod, mae'r Bil yn gymwys i Loegr yn unig ac yn cynnwys mesurau sy'n cynnwys (wrth ei gyflwyno):
  - Set newydd o egwyddorion yn egluro sut y gall awdurdodau lleol yn Lloegr hyrwyddo ac amddiffyn buddiannau'r holl blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n ymadael â gofal.
  - Gofyniad newydd i awdurdodau lleol yn Lloegr ymgynghori ar gynnig lleol a'i gyhoeddi yn nodi'r cymorth sydd ar gael i'r rhai sy'n ymadael â gofal yn yr ardal honno, ac i sicrhau bod gan bawb sy'n ymadael â gofal fynediad i gynghorydd personol hyd at 25 oed.
  - Mwy o gefnogaeth i blant wedi'u mabwysiadu a phlant mewn gofal hirdymor ar lefel ysgol ac ar lefel awdurdod lleol drwy ymestyn rôl y penaethiaid ysgol rhithwir ac athrawon dynodedig.
  - Darpariaethau i sicrhau bod anghenion plant yn hollbwysig ym mhenderfyniadau'r Llys am eu mabwysiadu neu eu gofal hirdymor, a ddylai gymryd i ystyriaeth unrhyw niwed y maent wedi'i ddioddef, y

cynllun hirdymor ar gyfer eu magwraeth, a'u perthynas â'u darpar fabwysiadwr.

- Trefniant newydd i alluogi'r awdurdodau lleol yn Lloegr i ddatblygu ac arbrofi ffyrdd mwy effeithiol o ddarparu gofal cymdeithasol i blant.
- Panel canolog newydd i adolygu achosion diogelu plant sy'n codi materion a allai arwain at ddysgu o bwysigrwydd cenedlaethol.
- Darpariaethau i alluogi creu corff newydd i reoleiddio a gwella ansawdd y proffesiwn gwaith cymdeithasol.

### **Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

6. Ceisir cydsyniad ar gyfer y gwelliant a gyflwynwyd gan yr Arglwydd Wills (y pennawd ar ôl cymal 28) ac a gyhoeddwyd yn y gwelliannau ar gyfer yr Adroddiad yn atodol i'r rhestr wedi'i gosod mewn trefn ar 26 Hydref ar wefan Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil, sydd i'w weld yn <http://services.parliament.uk/bills/2016-17/childrenandsocialwork.html>
7. Bydd y gwelliant yn mewnosod adran 49C yn Neddf Hawliau Cyflogaeth 1996.
8. Mae'r gwelliant hwn i'r Bil wedi'i gyflwyno gyda'r nod o amddiffyn y rhai sydd eisoes wedi gwneud datgeliadau gwarchoddedig rhag bod yn destun gwahaniaethu wrth wneud cais wedyn am swyddi gofal cymdeithasol plant swyddi gyda chyflogwyr perthnasol.
9. Mae'r gwelliant yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n gwahardd cyflogwr perthnasol rhag gwahaniaethu yn erbyn ymgeisydd am swydd gofal cymdeithasol i blant am ei bod yn ymddangos i'r cyflogwr perthnasol fod yr ymgeisydd wedi gwneud datgeliad gwarchoddedig.
10. Mae'r gwelliant yn darparu hefyd y caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth ynghylch amgylchiadau lle y gellir trin gwahaniaethu gan gyflogai neu asiant i gyflogwr perthnasol, at ddibenion y Rheoliadau, fel gwahaniaethu gan y cyflogwr.
11. Gall y Rheoliadau hefyd roi awdurdodaeth (gan gynnwys awdurdodaeth unigryw) ar driwlynlysoedd cyflogaeth neu'r Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth a gwneud darpariaeth ar gyfer neu ynghylch rhoi neu orfodi rhwymedïau penodedig gan lys neu driwlynlys.
12. Mae'r cymalau'n diffinio hefyd, at ddibenion y darpariaethau hyn, mewn perthynas â Chymru mai:
  - Ystyr 'relevant employer' yw 'the council of a county or county borough in Wales' neu berson sy'n arfer swyddogaethau gofal cymdeithasol plant o ganlyniad i gyfarwyddyd oddi wrth Weinidogion Cymru (gan ddefnyddio eu pwerau ymyrryd) o dan adrannau 153 i 157 o Ddeddf Gwasanaethau cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

- Ystyr 'Children's social care functions' yw 'any functions relating to the social care of children in Wales that are prescribed by regulations under this section'.

13. Mae'r gwelliant yn darparu mai dim ond lle y bwriedir i reoliadau o dan yr adran hon gynnwys y diffiniad o 'relevant employer' neu 'children's social care functions', y mae rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gwneud.
14. Mae is-gymal ychwanegol sy'n darparu y bwriedir i'r holl reoliadau o dan yr adran hon fod yn destun y weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.
15. Ym marn Llywodraeth Cymru mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn am eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â mater 'social services' o fewn y pennawd 'social welfare' o dan baragraff 15 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Plant a Gwaith Cymdeithasol**

16. Byddai gwneud darpariaethau i Gymru yn y Bil yn rhoi'r un amddiffyniad i ymgeiswyr am swyddi gofal cymdeithasol plant gyda chyflogwyr perthnasol yng Nghymru â'r rhai yn Lloegr a'r Alban. Gallai unrhyw oedi wrth weithredu darpariaethau hyn yng Nghymru beri anfantais i weithwyr yma. Mae Llywodraeth Cymru'n credu felly y dylai'r darpariaethau ddod i rym ar yr un pryd ag yn Lloegr a'r Alban.

### **Goblygiadau ariannol**

17. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydsynio i'r darpariaethau fod yn gymwys i Gymru. Byddai costau unrhyw setliad, sy'n deillio o benderfyniadau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth, yn cael eu rheoli o fewn cyllidebau presennol yr awdurdodau lleol.

### **Casgliad**

18. Ym marn Llywodraeth Cymru mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU hwn gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

**Rebecca Evans AC**

**Y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Tachwedd 2016**